



**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE
REPORT**

**Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a
Swyddogion) (Cymru) 2006**

Mae'r Gorchymyn yma'n nodi'r amgylchiadau lle caiff awdurdod lleol neu awdurdod penodedig arall yng Nghymru ddarparu indemniad i unrhyw rai o'u haelodau neu eu swyddogion neu sicrhau bod yswiriant yn cael ei ddarparu iddyn nhw. Mae'r pwerau hyn yn ychwanegol at unrhyw bwerau presennol a all fod gan yr awdurdodau yma.

Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae paragraff (b) yn y diffiniad o "aelod" (yn erthygl 2) yn wahanol yn y ddwy iaith. Ystyr y testun Saesneg yw bod y person yn cynrychioli'r awdurdod fel aelod o gydbwyllgor, ac ystyr y testun Cymraeg yw bod y person yn aelod o'r awdurdod ac yn ei gynrychioli ar y cydbwyllgor. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn nhestun Cymraeg erthygl 3, mae'r geiriau canlynol yn digwydd – "y mae'r gorchymyn hwn yn gymwys iddo". Does dim geiriau cyfatebol yn y testun Saesneg. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn y paragraff sy'n cyflwyno erthygl 5, mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "an indemnity" ond mae'r

testun Cymraeg yn cyfeirio, yn llinell olaf y paragraff hwnnw at "indemniad neu yswiriant". Gan fod y pennawd yn cyfeirio at "indemniad neu yswiriant", dydy hi ddim yn glir p'un sy'n gywir, ond fe ddylai'r cyfeiriadau fod yn gyson â'i gilydd [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn nhestun Saesneg erthygl 6(2)(a) mae'r geiriau "any criminal proceedings" wedi'u defnyddio. "Unrhyw gamau cyfreithiol" yw'r geiriau yn y testun Cymraeg. Gan y byddai'r ymadrodd Cymraeg yn cynnwys achosion sifil yn ogystal ag achosion troseddol, mae'r gwahaniaeth yn un arwyddocaol. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn nhrydedd linell testun Saesneg erthygl 7(2), mae'r geiriau "member of officer" i'w gweld. Mae'n amlwg mai gwall teipograffyddol am "member or officer" sydd yma. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn nhestun Cymraeg erthygl 8(5)(a), mae'r ymadrodd "unrhyw ddyfarniad" wedi'i ddefnyddio. Yn y testun Saesneg, "that finding" yw'r ymadrodd. Mae'r paragraff yma yr un fath yn union yn y Saesneg ag erthygl 8(4)(a), felly fe ddylai'r Gymraeg fod yr un fath hefyd. Yn nhestun Cymraeg erthygl 8(4)(a), "y dyfarniad hwnnw" yw'r ymadrodd sydd wedi'i ddefnyddio ac mae hwnnw'n cyfateb yn gywir i'r Saesneg. Dylid sicrhau bod yr atalnodi yn y ddau baragraff yn gyson hefyd. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mân wallau drafftio neu fân wallau teipograffyddol yw'r rhain i gyd a byddai'n addas eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

31 Ionawr 2006